# Safonau Arolygu Cenedlaethol y Gwasanaeth Prawf

Arolygiaeth Prawf EF

F1.6 Rhagfyr 2024

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ... 3
**N.1. Arwain a llywodraethu** ... 3
**N.2. Staffio** ... 4
**N.3. Gwasanaethau** ... 5
**N.4. Seilwaith** ... 6

# Cyflwyniad

Nid yw'r safonau wedi'u rhannu'n barthau un a dau. Yn lle hynny, mae un set o bedair safon. Bydd arolygon achos yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer y safonau hynny, ochr yn ochr â ffynonellau eraill o dystiolaeth ansoddol o dystiolaeth ymlaen llaw (EIA) a gwaith maes. Dyma'r pedair safon arfaethedig:

*N.1. Arwain a llywodraethu*

*N.2. Staffio*

*N.3. Gwasanaethau*

*N.4. Seilwaith*

Mae'r safonau wedi'u llunio i'n galluogi i roi sylwadau ar ddigonolrwydd trefniadau cenedlaethol i gefnogi, galluogi neu sbarduno'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol gan ranbarthau ac Unedau Cyflawni Prawf (PDUs). Yr hyn sy'n ennyn ein diddordeb yw'r berthynas rhwng yr hyn sy'n digwydd ar lefel genedlaethol a sut mae hyn yn cysylltu â darparu gwasanaethau prawf yn effeithiol.

# N.1. Arwain a llywodraethu

**Mae trefniadau arwain a llywodraethu cenedlaethol yn sbarduno'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol.**

### *N.1.1 A yw'r trefniadau strategol cenedlaethol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol?*

a) A oes gweledigaeth a strategaeth genedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y gwasanaeth prawf?

b) A oes cynllun cyflawni cenedlaethol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth a'r strategaeth?

c) A yw trefniadau llywodraethu cenedlaethol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth a'r strategaeth yn effeithiol?

d) A oes trefniadau cydweithredol cryf sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar waith gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a phartneriaid trawslywodraethol?

### *N.1.2 A yw gweithgarwch arwain cenedlaethol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol?*

a) A yw'r model gweithredu cenedlaethol yn galluogi rhanbarthau i fabwysiadu dull bwriadol, strategol a gwybodus o ddiwallu anghenion amrywiol?

b) A yw arweinwyr cenedlaethol yn sicrhau bod polisïau'n cael eu gweithredu'n effeithiol?

c) A yw gweithgarwch arwain cenedlaethol yn cefnogi ac yn gwella arweinyddiaeth ranbarthol a PDU?

d) Wrth weithredu newidiadau cenedlaethol, a yw'r effaith ar ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys effaith ar gydraddoldeb, yn cael ei hasesu, ac a oes camau priodol yn cael eu cymryd?

*N.1.3 A yw'r diwylliant cenedlaethol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol?*

a) A oes cyfathrebiad cenedlaethol effeithiol â rhanbarthau a PDUs sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol?

b) A yw rhanbarthau a PDUs yn gallu ymateb i adborth gan staff a phobl ar brawf?

c) A yw diwylliant y gwasanaeth prawf yn hyrwyddo bod yn agored, herio'n adeiladol a chynnig syniadau?

d) A oes digon o ffocws ar lefel genedlaethol ar lesiant staff?

*N.1.4 A yw arweinwyr cenedlaethol yn defnyddio dadansoddiad, tystiolaeth a dysgu i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol?*

a) A oes trefniadau sicrwydd cenedlaethol cynhwysfawr yn eu lle sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol?

b) A oes dealltwriaeth genedlaethol ddigonol o berfformiad ac ansawdd ar draws y gwasanaeth prawf ac ar bob lefel?

c) A yw arweinwyr cenedlaethol yn dysgu'n systematig?

d) A yw arweinwyr cenedlaethol yn deall ac yn defnyddio gwybodaeth am degwch, amrywiaeth a chynhwysiant i ysgogi gwelliant?

e) A yw arweinwyr cenedlaethol yn ceisio, yn dadansoddi ac yn defnyddio barn pobl ar brawf ar lefel genedlaethol i adolygu a gwella gwasanaethau?

f) A yw gwasanaethau prawf yn cael eu gwella drwy werthusiad a datblygiad o'r sylfaen dystiolaeth sylfaenol?

## N.2. Staffio

**Mae trefniadau ar gyfer staffio yn galluogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol.**

**D.S. Mae staffio yn cyfeirio at yr holl staff gan gynnwys rolau gweinyddol, ymarferwyr a rheolwyr.**

**N.2.1 A yw trefniadau rheoli llwyth gwaith cenedlaethol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol?**

a) A yw trefniadau adnoddau cenedlaethol yn sicrhau llwythi gwaith y gellir eu rheoli ar gyfer staff rhanbarthol a staff PDU?

b) A yw offer rheoli adnoddau cenedlaethol yn cefnogi rhanbarthau a PDUs i reoli llwythi gwaith staff yn effeithiol?

c) A yw rhanbarthau a PDUs yn cael yr awdurdod a'r cymorth priodol i reoli llwythi gwaith i ymateb i bwysau lleol?

**N.2.2 A yw trefniadau recriwtio a chadw cenedlaethol yn cefnogi rhanbarthau a PDUs i ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol?**

a) A yw trefniadau recriwtio a chadw cenedlaethol yn sicrhau bod digon o staff yn cael eu darparu i ranbarthau a PDUs?

b) A yw trefniadau recriwtio a chadw cenedlaethol yn sicrhau bod staff sydd â'r sgiliau cywir yn cael eu darparu i ranbarthau a PDUs?

c) A yw trefniadau recriwtio a chadw cenedlaethol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni gweithlu amrywiol?

d) A yw'r trefniadau recriwtio cenedlaethol yn effeithlon?

**N.2.3 A yw trefniadau dysgu a datblygu cenedlaethol yn cefnogi rhanbarthau a PDUs i ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol?**

a) A yw diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus yn cael ei hyrwyddo'n weithredol ar lefel genedlaethol?

b) A yw polisïau, strategaethau a threfniadau ar gyfer dysgu a datblygu yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol?

c) A yw trefniadau dysgu a datblygu cenedlaethol yn sicrhau bod staff yn ddigon medrus, cymwys a phrofiadol?

d) A yw effaith dysgu a datblygu yn cael ei werthuso, ac a oes newidiadau'n cael eu gwneud i ymateb i hynny?

## N.3. Gwasanaethau

**Mae trefniadau cenedlaethol yn sicrhau bod amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau prawf yn cael eu darparu'n effeithiol.**

**N.3.1 A oes dadansoddiad cenedlaethol cyflawn a chyfredol o broffil y bobl ar brawf sy'n galluogi'r gwaith o ddarparu amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau prawf yn effeithiol?**

a) A yw'r dadansoddiad yn cyfleu'n ddigonol y ffactorau ymatal a'r ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu a gyflwynir gan bobl ar brawf?

b) A yw'r dadansoddiad yn cofnodi'n ddigonol y proffil risg o niwed pobl ar brawf?

c) A yw'r dadansoddiad yn rhoi digon o sylw i ffactorau tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, yn ogystal â materion anghymesuredd?

d) A oes dadansoddiad digonol o batrymau lleol troseddu a mathau o ddedfrydu?

e) A yw'r dadansoddiad yn cyfrannu at ddarparu cynlluniau ac adnoddau'n genedlaethol?

**N.3.2 A yw'r trefniadau cenedlaethol yn sicrhau bod yr amrywiaeth a'r nifer digonol o wasanaethau prawf yn cael eu darparu?**

a) A yw'r partneriaethau cywir yn eu lle ac yn gweithredu'n effeithiol ar lefel genedlaethol i ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol?

b) A oes gan y rhanbarthau a'r PDUs ddealltwriaeth dda o'r trefniadau cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau?

c) A yw'r trefniadau cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau yn diwallu anghenion rhanbarthau a PDUs?

d) A oes awdurdod priodol yn cael ei ddirprwyo i ranbarthau a PDUs mewn perthynas â chontractio gydag asiantaethau partner a rheoli eu perfformiad?

e) A yw trefniadau cenedlaethol yn hyrwyddo cydweithio effeithiol rhwng darparwyr gwasanaethau ac ymarferwyr prawf?

f) A yw adeiladu cryfderau a gwella ffactorau amddiffynnol yn ganolog i gomisiynu a darparu gwasanaethau'n genedlaethol?
g) A yw diogelu'r cyhoedd yn ganolog i gomisiynu a darparu gwasanaethau'n genedlaethol?
h) A yw ffactorau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a materion anghymesuredd yn cael sylw digonol yn y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu a'u comisiynu'n genedlaethol?
i) A yw trefniadau cenedlaethol ar gyfer y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn cael ei lywio gan waith monitro, gwerthuso ac adolygu rheolaidd a chadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

## N.4. Seilwaith

**Mae seilwaith yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol.**

### N.4.1 A yw'r cyfleusterau'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol?

a) A yw'r trefniadau cenedlaethol yn sicrhau bod adeiladau a swyddfeydd yn cefnogi'r broses o gyflawni gwaith personol priodol ac ymgysylltu effeithiol?
b) A yw trefniadau cenedlaethol yn darparu amgylcheddau diogel ar gyfer darparu gwasanaethau'n effeithiol?
c) A yw trefniadau cenedlaethol yn darparu amgylcheddau hygyrch ar gyfer darparu gwasanaethau'n effeithiol?

### N.4.2 A yw systemau TGCh yn galluogi rhanbarthau a PDUs i ddarparu gwasanaethau prawf yn effeithiol?

d) A yw systemau TGCh yn galluogi staff i gynllunio, cyflawni a chofnodi eu gwaith yn brydlon?
e) A yw systemau TGCh yn galluogi staff i gael gafael ar wybodaeth yn briodol ac yn ddibynadwy?
f) A yw systemau TGCh yn galluogi cyfnewid gwybodaeth yn effeithiol gyda phartneriaid?
g) A yw systemau TGCh yn cefnogi gweithio o bell lle bo angen?
h) A yw systemau TGCh yn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu'r wybodaeth reoli angenrheidiol?
i) A yw rhanbarthau a PDUs yn cael eu cefnogi i ddod o hyd i ddatrysiadau TGCh lleol lle gallai fod angen y rhain?